

# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o'r Gweithor Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Fercher, 11 Medi 2019 yn Neuadd Pentref Y Groeslon

Minutes of the Consulting Working Group held at Groeslon Village Hall, Wednesday, 11 September 2019 at 7.00pm

## Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Alun Wyn Jones ;David C Davies; Eddie Willcox; Hywel J Owen ; David Roberts Rheolwr/Manager.

## 1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd Alun Wyn Jones Dywedodd fod angen ethol cadeirydd i'r gweithgor.

Gan mai gweithgor ydi hwn ac nid Pwyllgor mae gan yr aelodau yr hawl i ethol Cadeirydd y Cyngor i'r gadair.

*Penderfynwyd ethol Cyng Alun Wyn Jones i'r gadair*

## 2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng Gwyn Owen Jones; Cyng. Helen Hughes.

## 3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda.

## 4 Ymgysylltu

Atgoffwyd yr aelodau o benderfyniad y Cyngor 28 Awst 2019 -

### *Penderfynwyd ar y canlynol-*

- i) Fod y Cyngor yn cadarnhau mai cyfathrebu gyda'r gymuned yw'r flaenoriaeth.*
- ii) Fod y Cyngor yn sefydlu amserlen i gyflawni'r gwaith.*
- iii) Fod y Cyngor yn sefydlu gweithgor gyda hawl i bob aelod fynychu*

Cadeirydd -cyfeiriodd ayt dudalen 4 a 5 o adroddiad Celyn yn benodol fod -  
71% o'r ymatebion yr holiadur wedi datgan fod angen mwy o wybodaeth am waith y Cyngor  
57% ddim yn gwybod sut i gysylltu gyda'r Cyngor  
49% ddim yn gwybod pwy oedd ei Gyngorydd.

Nodwyd y dulliau 'roedd y trigolion wedi ymateb i dderbyn gwybodaeth

Facebook

Gwefan

Lleu

Ebost

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Surgeries Cyhoeddus

**Cylchlythyr**

Sylwadau aelodau-

EW – Facebook yn bwerus

DCD - Facebook yn hawdd i'w sefydlu - rhaid bod yn wylidwrus o sylwadau negatif.

Rhodddwyd esiampol o negeseuon negatif oedd wedi ymddangos ar dudalen Facebook lleol yn ddiweddar. O'r farn fod rhaid i'r Cyngor rŵan sefydlu tudalen Facebook

HJO - gellir ystyried treialu. Mater hawdd yw cau'r dudalen os oes negeseuon negatif yn ymddangos.

**Argymhellion i'r Cyngor**

- i) Fod y Cyngor yn gwahaodd Cwmni Celyn rhoi arweiniad i'r Cyngor i sefydlu tudalen Facebook**

**Recommendations to the Council**

- i) That the Council invites Celyn Company to provide guidance to the Council to set up a Facebook page**

**Cylchlythyr**

Adroddwyd gan EW fod Canolfan y Fron yn cynhyrchu cylchlythyr i'r pentref, Dywedodd fod yna gost sylweddol i'w cynhyrchu – yn dibynnu ar safon y papur a maint y ddogfen. Rhaid ystyried cost dosbarthu hefyd.

HJO - syniad da, ond yn ofni fod cost ac amser cynhyrchu'r cylchlythyr yn tynnu oddi ar ddyletswyddau'r Cyngor. Rhaid ystyried gwaith ychwanegol i'r Rheolwr hefyd.

AWJ – bydd angen ystyried beth i'w gynnwys. Rhaid i'r cynnwys fod yn gywir.

Rheolwr - dywedodd fod adolygiad o waith Cyngorau gan y Llywodraeth yn debygol o orfodi'r Cyngor i gynhyrchu adroddiad blynyddol. Awgrymodd i'r aelodau ystyried cynhyrchu'r adroddiad ar ffurf cylchlythyr. Gellir cynnwys gwaith y Cyngor am y flwyddyn a fu, blaenoriaethau i'r flwyddyn ddilynol, cyfrifon terfynol, cyllideb y Cyngor, dyddiadau allweddol, manylion aelodau ac yn y blaen. Gellir ei gyhoeddi ar y gwefan ynghyd a chopïau mewn manau cyhoeddus oddi fewn y gymuned

**Argymhellion i'r Cyngor**

- i) Fod y Cyngor yn ystyried cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ffurf cylchlythyr.**
- ii) Fod y Cyngor yn gofyn i'r gweithgor hwn i edrych i fewn i'r mater yn nhermau costau ac amser i gynhyrchu'r adroddiad ar ffurf cylchlythyr**

**Recommendations to the Council**

- i) That the Council considers producing an annual report in the form of a newsletter.**
- ii) That the Council asks this working group to further explore the possibility in terms of costs & time to produce the report the form of a newsletter**

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:45 yr hwyr**

<b>Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -</b>	
<b>Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor</b>	
<b>Dyddiad -</b>	